



Dewch i ymuno â'r tîm!

HYSBYSEB

TEITL Y RÔL: Hyfforddwr Nofio Lefel 2

TESTUN YR HYSBYSEB:

Rydym yn chwilio am unigolion brwdfrydig, llawn cymhelliant a ffocws ar gwsmeriaid i ymuno â'n tîm MonLife. Rhaid i chi fod yn hawdd siarad â chi, yn gyfeillgar ac yn amyneddgar, gyda'r gallu i feithrin ymddiriedaeth, gan annog a chymell eich dysgwyr i ddatblygu sgiliau nofio, techneg a hyder yn y dŵr.

RHIF ADNABOD Y SWYDD: Y Fenni LALC007

LLEOLIAD: Canolfan Hamdden y Fenni

GRADD: BAND E SCP 14-18 £27,334 - £29,269 (Pro rata yn seiliedig ar oriau'r contract)

ORIAU: Orlau amrywiol o 2 awr y mis i 39 awr y mis. Bydd hyn yn cael ei gytuno gyda'r ymgeisydd llwyddiannus
Yr oriau arferol fydd prynhawniau yn ystod yr wythnos rhwng 4:00pm a 6:00pm a boreau'r penwythnos rhwng 9:00am ac 11:00am. Fodd bynnag, gall hyn newid yn seiliedig ar anghenion y Gwasanaeth.

DROS DRO: Nac ydynt

A oes angen Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd? Oes

DYDDIAD CAU: 3 Ebrill 2025

Gwybodaeth Ychwanegol

Gofynnir i chi nodi na allwn dderbyn CVau

I wneud cais am y swydd hon, cwblhewch y ffurflen gais ar-lein sydd i'w gweld ar y dudalen ganlynol:

<https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/swyddi-chyflogaeth/>

Gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg ac ni chaiff cais a gyflwynir yn y Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Mae'r holl swyddi'n agored i'w rhannu os na nodir fel arall.

Mae Cyngor Sir Fynwy -

- yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob adran o'r gymuned.
- yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd.

- yn gyflogwr sy'n gyfeillgar i'r Lluoedd Arfog.
- yn ystyriol o Awtistiaeth ac wedi ymrwymo i gael gwared ar y rhwystrau i gyflogaeth
- yn ymrwymedig i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael ein gofal i fanteisio ar gyfleoedd newydd ac ennill profiad.



PROFFIL Y RÔL

TEITL Y RÔL: Hyfforddwr Nofio Lefel 2
PARHAOL

RHIF ADNABOD Y SWYDD: Y Fenni LALC007

GRADD: BAND E SCP 14-18 £27,334 - £29,269 (Pro rata yn seiliedig ar oriau'r contract)

ORIAU: Oriau amrywiol o 2 awr y mis i 39 awr y mis. Bydd hyn yn cael ei gytuno gyda'r ymgeisydd llwyddiannus

PATRYMAU GWAITH: Yr oriau arferol fydd prynhawniau yn ystod yr wythnos rhwng 4:00pm a 6:00pm a boreau'r penwythnos rhwng 9:00am ac 11:00am. Fodd bynnag, gall hyn newid yn seiliedig ar anghenion y Gwasanaeth.

LLEOLIAD: Mewn canolfan hamdden a ffefrir a ddyrennir, ond gall hyn newid yn y dyfodol os oes angen newid lleoliad y gwasanaeth. Ni thelir treuliau adleoli neu ymyrryd os yw hyn yn digwydd.

GWIRIAD GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (GDG)

Mae penodiad i'r swydd hon wedi'i eithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyd ac mae'n destun y gwiriad GDG canlynol

Gwiriad Manwl gyda Gwiriad Rhestr Wedi'i Wahardd o Blant

YN ATEBOL I: Rheolwr Canolfan Hamdden ar gyfer safonau a datblygiad proffesiynol. Yn ogystal â Swyddogion Dyletswydd Canolfan Hamdden ar gyfer rheoli o ddydd i ddydd

ASESIAD Y GYMRAEG:

Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol;

Pwy ydym ni?

Mae MonLife yn rhan o Gyngor Sir Fynwy ac mae'n darparu gwasanaethau hamdden, ieuenctid ac addysg awyr agored, seilwaith gwyrdd a chefn gwlad, twristiaeth, rheoli cyrchfannau, y celfyddydau, amgueddfeydd ac atyniadau. Ei nod yw cyfoethogi bywydau pobl drwy gymryd rhan a gweithgarwch. Adeiladu lleoedd a chymunedau cryf a bywiog yn Sir Fynwy.

DIOGELU:

Mae Diogelu Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn perygl i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Mae holl weithwyr a gwirfoddolwyr y Cyngor yn gyfrifol am chwarae eu rhan mewn lles, diogelwch ac amddiffyniad plant ac oedolion sydd mewn perygl.. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.

Ein Pwrpas:-

Hyrwyddo bywydau iachach a phrofiadau ysbrydoledig, a hyrwyddo bywiogrwydd Sir Fynwy fel lle gwych i fod.

Pwrpas y Rôl hon:-

Gweithio fel rhan o dîm sy'n addysgu ac yn hyfforddi pobl o bob oed a gallu i ddatblygu sgiliau nofio, techneg a hyder yn y dŵr.

Disgwyliadau a Chanlyniadau'r Rôl hon:-

Byddwch yn gweithio o fewn y rhaglen ddyfrol mewn canolfan hamdden ac yn cynllunio ac yn cyflwyno sesiynau gan ddefnyddio'r Fframwaith Dysgu i Nofio Cymru. Byddwch yn sicrhau bod safonau diogelwch yn cael eu dilyn mewn sesiynau, yn nodi galluoedd dysgwyr ac yn eu hannog i gyrraedd eu llawn botensial.

Bydd eich cyfrifoldebau yn cynnwys:-

- Addysgu gwersi nofio fel rhan o raglen Dysgu Nofio MonLife a dilyn y Fframwaith Dysgu Nofio Cenedlaethol.
- Cynnal cofnodion cyfredol o bresenoldeb a chynnydd dysgwyr drwy ein system rheoli nofio, gan gynnwys adborth rheolaidd a dyfarnu tystysgrifau.
- Cynllunio eich gwersi'n rhagweithiol gan ddefnyddio'r Fframwaith Dysgu Nofio Cenedlaethol ac adolygu eich dosbarthiadau'n rheolaidd i sicrhau bod eich gwersi yn hwyl, yn ddiddorol ac yn ysgogol.
- Ymgymryd â hyfforddiant parhaus, fel rhan o Raglen Datblygu Nofio MonLife.
- Paratoi offer sydd ei angen arnoch cyn dechrau'r wers a storio offer yn ddiogel ar ddiwedd eich cyfnod addysgu.
- Darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid
- Hyrwyddo chwaraeon nofio i'r holl ddysgwyr a rhieni sy'n mynychu'r Rhaglen Dysgu Nofio.
- Ymgysylltu â rhaglen Gwirfoddolwyr MonLife. Mentora, cefnogi a datblygu gwirfoddolwyr. Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio'n adeiladol i helpu i gyflwyno eich gwersi.
- Mynd ati i uwchsgilio a darparu ym maes dyfrol blynyddoedd cynnar a sgiliau Dysgu Nofio MonLife.
- Ymgysylltu â darparu llwybrau dyfrol Blynyddoedd Cynnar a Sgiliau Dysgu Nofio MonLife.
- Darparu fframweithiau Nofio Clwb a Dysgu Nofio i Oedolion yn weithredol.
- Gwisgo'n smart i bortreadu delwedd gadarnhaol o MonLife tra'n gwisgo'r wisg unffurf a ddarperir pan ar ddyletswydd.
- Cyflwyno eich gwersi' unol â Gweithdrefnau Gweithredu Arferol a Chynlluniau Gweithredu Brys y Ganolfan Hamdden, a mynychu unrhyw sesiynau hyfforddi angenrheidiol i gynnal eich sgiliau.
- Cymryd rhan weithredol wrth gefnogi egwyddorion ac ymarfer cyfle cyfartal, fel y'u nodir ym Mholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor, ac i weithio o fewn y blaenoriaethau diogelu yn y Ganolfan Hamdden.
- Bod yn gyfrifol am weithredu a monitro iechyd a diogelwch yn y gwaith mewn ardaloedd dynodedig fel y'u nodir ym Mholisi a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch yr awdurdod.

- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill y gallai fod eu hangen ar Gyngor Sir Fynwy sy'n gydnaws â lefel a chylch gwaith y swydd hon.

Dyma beth y gallwn ei rhoi i chi:-

- Gallwn gynnig diwylliant sy'n hyrwyddo cydweithio â'n tîm ac sy'n meithrin cysylltiadau agos â'n partneriaid.
- Gwasanaeth cryf ei gymhelliad a brwdfrydig sy'n cael ei yrru i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r Cyngor a'i gymunedau lleol.
- Yn ein rhaglen Dysgu Nofio rydym yn defnyddio system rheoli nofio gyda llechi electronig cludadwy ar gyfer cofnodi presenoldeb a chyflawniadau dysgwyr.
- Rydym yn cefnogi hyfforddiant a datblygiad mewnol ac yn defnyddio adnoddau rhaglen Dysgu Nofio Cymru.
- Cyfle i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg.

Beth arall sydd angen i chi ei wybod..... Ein Gwerthoedd:

Mae ein diben yn seiliedig ar ymdeimlad clir o bwy ydym ni fel sefydliad. Rydym yn disgwyl i bobl sy'n gweithio gyda ni rannu set gwerth cryf a disgwyl bod y rhain yn amlwg yn y ffyrdd yr ydym yn gweithio ac yn ymgysylltu â'n cymunedau.

Gwaith Tîm:	Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan. Byddwn yn gwneud y gorau o'r syniadau, a'r adnoddau sydd ar gael er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael effaith fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a'n lleoedd.
Bod yn agored:	Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael y cyfle i gymryd rhan a dweud wrthym beth sy'n bwysig.
Hyblygrwydd:	Rydym yn hyblyg er mwyn gallu darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i gofleidio ffyrdd newydd o weithio.
Tegwch:	Rydym yn darparu cyfleoedd i bobl a chymunedau ffynnu. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson.
Caredigrwydd:	Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.

Bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy i gyflawni'r rhain.

Yn ogystal:

Mae pob gweithiwr yn gyfrifol am gynnal eu hunain mewn modd sy'n cydymffurfio â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain ac yn eu hymddygiad cyffredinol.

Mae'r awdurdod yn gweithredu polisi Gweithle Di-fwg ac mae'n rhaid i bob cyflogai cydymffurfio â hyn.



Manyleb Person

Sut y byddwn yn gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y swydd? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch wedi dangos eich bod â'r canlynol:-

Ardal	Hanfodol	Dymunol
Cymwysterau	Cymhwyster ASA Lefel 2 Athrawon Nofio o leiaf (FfG) Gweithio tuag at gymhwyster addysgu Oedolion a Phlant perthnasol (FfG) Gweithio tuag at gymhwyster dysgu polo dŵr (FfG) Gweithio tuag at Gymhwyster Hyfforddwr Fin2Fit (FfG) Gweithio tuag at Gymhwyster Nofio Artistig (FfG)	Bod â Chymhwyster Achubwr Bywyd Pwll Cenedlaethol (FfG)
Gwybodaeth, Sgiliau a Chymwyseddau	Gwybodaeth ymarferol o Raglen Dysgu Nofio Cymru (FfG, Cyf) Gwybodaeth a dealltwriaeth o Bolisiau Amddiffyn Plant mewn amgylchedd pwll nofio (Cyf) Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig gyda chydweithwyr a chwsmeriaid (Cyf) Y gallu i fod yn hyderus ac yn bendant pan fydd gofynion achlysurol, ond eto wedi ymrwymo'n llwyr i egwyddorion gwasanaeth cwsmeriaid da (Cyf). Y gallu i weithio gyda phobl ifanc o gefndiroedd amrywiol a gyda phlant/oedolion sydd ag anghenion penodol (Cyf) Y gallu i ddefnyddio ein system TG yn hyderus a'r defnydd o'n llechi athrawon trwy borthol yr athrawon (FfG, Cyf)	Gwybodaeth am ganllawiau / safonau nofio (Cyf)
Profiadau	Profiad o ddysgu nofio mewn amgylchedd dyfrol (FfG, Cyf)	Gweithio gyda phobl sydd ag anableddau mewn rhaglen chwaraeon (Cyf)

	Profiad o drefnu, cynllunio a chyflwyno sesiynau nofio strwythuredig ac addasu i alluoedd, anghenion ac oedrannau amrywiol (FfG, Cyf) Cynnal safon uchel o wasanaeth i gwsmeriaid (Cyf)	
Nodweddion Personol	Hunanysgogol a phrydlon (Cyf) Amynedd a dealltwriaeth wrth weithio gyda phob disgybl, gan gynnwys plant/oedolion/grwpiau sydd ag anghenion penodol (Cyf) Dangos lefelau uchel o broffesiynoldeb o ran agwedd a gwisg (Cyf) Gallu dangos ymrwymiad i ddatblygiad personol parhaus (Cyf)	
Arall	Y gallu i weithio oriau hyblyg (FfG, Cyf) Deall a dangos parodrwydd i hyrwyddo Polisi Cyfle Cyfartal MonLife yn gadarnhaol (Cyf)	

(Cyf) Cyfweliad (FfG) Ffurflen Gais

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol.

Efallai y bydd gofyn i chi ddysgu neu wella eich sgiliau presennol drwy fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg i staff sy'n cael ei ariannu gan y Cyngor.

Rheolwr Canolfan Hamdden y Fenni – Michelle Witch (Rhif Ffôn: 01633 644800)

Dyddiad Cau: Dydd Iau 3 Ebrill 2025

FFRAMWAITH SGILIAU IAITH GYMRAEG

LEFEL 1			
<i>Gall ddeall ymadroddion sylfaenol bob dydd os yw'r siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir ac yn fodlon helpu. Gall gyflwyno ei hunan ac eraill a gall ofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. unigolyn yn gofyn am weld rhywun, ble mae cyfarfod xxx, toiled ac yn y blaen. Gall drosglwyddo galwadau ffôn, cyfleu neges fer neu wneud cais syml e.e. drwy e-bost.</i>			
DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
➤ Gall ddeall cwestiynau syml: lle mae cyfarfod xxx, pwy yw'r person y dymunant ei weld. Gall ddeall i bwy i drosglwyddo galwad ffôn ac yn y blaen.	➤ Gall ynganu enwau lleoedd ac enwau personol yn gywir. ➤ Gall gyfarch unigolion wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. ➤ Gall agor a chau sgwrs neu agor a chau cyfarfod.	➤ Gall ddarllen brawddeg fer, e.e. arwyddion syml, cyfarwyddiadau syml, eitemau agenda, gwybodaeth syml ar ffurflenni.	➤ Gall agor a chau neges e-bost neu lythyr. ➤ Gall ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi. ➤ Gall ysgrifennu neges syml i gydweithiwr ar bapur neu e-bost e.e. mae hwn a hon wedi galw.
LEFEL 2			
<i>Gall ddeall brawddegau pan mae pobl yn siarad am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol syml. Gall gynnal sgwrs sylfaenol gyda rhywun i gael neu gyfnewid gwybodaeth syml, e.e. trafod sut mae person yn teimlo; rhywbeth a ddigwyddodd; cynllun syml ar gyfer y dyfodol. Gall ysgrifennu a deall negeseuon mewn llythyrau neu negeseuon e-bost yn disgrifio materion cyfarwydd ac ysgrifennu mewn brawddegau byr.</i>			
DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
➤ Gall ddeall pan mae pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd e.e. rhoi gwybodaeth bersonol, siarad am beth fuont yn ei wneud, yr hyn yr hoffent ei wneud, sut y teimlant yn gyffredinol. ➤ Gall ddeall pan mae pobl yn gofyn iddynt wneud rhywbeth.	➤ Gall gyfathrebu gwybodaeth syml neu ofyn cwestiynau cyffredin, e.e. cael gwybodaeth gan unigolion. ➤ Gall ddefnyddio'r Gymraeg i gyrraedd a dangos empathi gydag unigolyn ond dim i gynnal yr holl sgwrs neu sesiwn yn y Gymraeg. ➤ Gall gynnal sgwrs fer gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. ➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond bydd angen troi i'r Saesneg ar gyfer termau arbenigol.	➤ Gall ddarllen negeseuon byr a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost, e.e. rhai sy'n gwneud cais neu'n gofyn am gyfleu neges.	➤ Gall ysgrifennu neges fer at gydweithiwr yn gofyn cwestiwn, yn diolch iddo/iddi, esbonio rhywbeth e.e. amser a lle cyfarfod. ➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost byr i drefnu apwyntiad.
LEFEL 3:			
<i>Gall ddeall y prif bwyntiau pan mae unigolyn neu gydweithiwr yn siarad am bynciau cyfarwydd e.e. yn ystod sgwrs neu gyfarfod grŵp bach. Gall gynnal sgysiaestynedig gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith bob dydd. Gall ddisgrifio profiadau a digwyddiadau a rhoi esboniadau am a rhesymau cryno am farnau a chynlluniau. Gall ddarllen erthyglau, llythyrau neu negeseuon e-bost am bynciau cyffredinol. Gall ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. yn gofyn am rhywbeth; rhoi gwybodaeth; gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.</i>			

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr wrth gyfnewid gwybodaeth neu drafod cynlluniau, os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddeall trafodaeth mewn cyfarfod os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr mewn sefyllfa gyfarwydd neu mewn sgwrs bob dydd.	➤ Gall gymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgysiau gyda chydweithwyr am waith a chynlluniau os nad yw'r eirfa yn rhy dechnegol. ➤ Gall gynnal sgwrs gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. ➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond gall fod angen troi i'r Saesneg am dermau arbenigol. ➤ Gall addasu cywair iaith i weddu i'r gynulleidfa.	➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost neu lythrau'n ymwneud â gwaith dydd i ddydd. ➤ Gall ddyfalu ystyr gair yn seiliedig ar gyd-destun os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddarllen erthygl syml a rhwydd mewn papurau newydd neu fathau o ddeunydd ysgrifenedig mewn cylchgrawn.	➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost at unigolyn neu gydweithiwr am y rhan fwyaf o bynciau er mwyn gofyn am rywbeth; rhoi esboniad; disgrifio profiad neu sefyllfa; gwahodd pobl neu drefnu digwyddiad. ➤ Gallu ysgrifennu'n gymharol gywir wrth ddrafftio taflen wybodaeth fer neu boster yn Gymraeg fel bo'r angen.

LEFEL 4

Gall fel arfer ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau neu drafodaethau, hyd yn oed ar bynciau anghyfarwydd. Gall siarad yn hyderus gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith, a mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol e.e. mewn cyfarfodydd neu sefyllfaoedd un-i-un gydag unigolion. Gall ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr rhugl gyda chymorth adnoddau Cymraeg a gall fwrw golwg dros destunau hir i ganfod manylion. Gall lenwi ffurflenni ac ysgrifennu adroddiadau'n ymwneud â gwaith ac ymateb yn gywir.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
➤ Gall ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau a thrafodaethau gydag unigolion neu gydweithwyr hyd yn oed os yw'r deunydd pwnc yn anghyfarwydd.	➤ Gall gyfrannu'n effeithlon at gyfarfodydd mewnol ac allanol mewn cyd-destun gwaith. ➤ Gall sgwrsio'n gysurus gydag unigolion a chyfnewid gwybodaeth fel sydd angen. ➤ Gall ddadlau dros ac yn erbyn achos penodol. ➤ Gall gadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r gadair yn hyderus.	➤ Gall ddarllen y rhan fwyaf ohebiaeth a bwrw golwg ar destunau hir i ganfod manylion. ➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau papur newydd gyda chymorth geiriadur. ➤ Gall ddeall testunau, os na ysgrifennwyd mewn dull ffurfiol iawn neu dafodieithol.	➤ Yn gallu cynhyrchu gohebiaeth o bob math, adroddiadau, dogfennau a llenyddiaeth byr gyda chymorth cymhorthion cyfieithu Cymraeg ee. Cysgeir, Cysill.

LEFEL 5

Gall ddeall popeth a gaiff ei ddweud. Gall siarad yn helaeth am faterion cymhleth, gan gyflwyno gwybodaeth anodd a gall hwyluso a chrynhoi trafodaethau estynedig neu gymhleth. Gall grynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau (yn llafar ac yn ysgrifenedig) a'i chyflwyno mewn modd cydlynus. Gall fynegi ei hunan yn fyrfyfyr, rhugl ac yn fanwl, gan addasu'r iaith i weddu i'r gynulleidfa.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
➤ Gall ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth gydag unigolion neu gydweithwyr. ➤ Gall ddeall amwysedd a naws iaith.	➤ Gall fynegi ei hunan yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth. ➤ Gall addasu arddull a chywair yr iaith i weddu i'r gynulleidfa.	➤ Gall ddarllen a deall bron bob testun ysgrifenedig heb anhawster, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol. ➤ Gall ddarllen testunau hir i ganfod manylion perthnasol a gall ddeall y rhan fwyaf o fathau o ddeunydd ysgrifenedig.	➤ Gall ysgrifennu adroddiadau mewn arddull glir addas i'r darlennydd gyda chefnogaeth offer cymorth iaith electronig. ➤ Gall ysgrifennu Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol yn ôl yr angen. ➤ Gall ysgrifennu ystod o ddogfennau yn gywir ac yn hyderus.